

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Aelwydydd a Sefydliadau Cymunol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
Yr holl breswylwyr arferol	183,777		187,897		3,063,456		3,107,494		56,075,912		59,597,542	
Yn byw ar aelwyd	181,277	98.6	185,595	98.8%	3,011,182	98.3%	3,051,549	98.2%	55,071,113	98.2%	58,555,851	98.3%
Yn byw mewn sefydliad cymunedol	2,550	1.4%	2,302	1.2%	52,274	1.7%	55,945	1.8%	1,004,799	1.8%	1,041,691	1.7%
Maint Aelwydydd												
Cyfanswm: Pob gofod aelwyd	78,829		81,759		1,302,676		1,347,114		23,366,044		24,783,199	
1 person ar yr aelwyd	23,770	30.2%	25,349	31.0%	400,768	30.8%	429,559	31.9%	7,067,261	30.2%	7,481,788	30.2%
2 berson ar yr aelwyd	28,636	36.3%	29,813	36.5%	453,627	34.8%	472,906	35.1%	7,998,031	34.2%	8,451,403	34.1%
3 pherson ar yr aelwyd	12,131	15.4%	12,553	15.4%	203,652	15.6%	212,281	15.8%	3,641,569	15.6%	3,955,168	16.0%
4 person ar yr aelwyd	9,558	12.1%	9,392	11.5%	164,278	12.6%	157,455	11.7%	3,031,078	13.0%	3,182,251	12.8%
5 person ar yr aelwyd	3,366	4.3%	3,222	3.9%	56,711	4.4%	52,304	3.9%	1,085,188	4.6%	1,112,752	4.5%
6 pherson ar yr aelwyd	1,047	1.3%	980	1.2%	17,598	1.4%	15,162	1.1%	386,784	1.7%	373,957	1.5%
7 person ar yr aelwyd	211	0.3%	291	0.4%	3,911	0.3%	4,709	0.3%	92,734	0.4%	130,727	0.5%
8 neu ragor o bobl ar yr aelwyd	110	0.1%	159	0.2%	2,131	0.2%	2,738	0.2%	63,399	0.3%	95,153	0.4%

Dadansoddiad:

- Ers 2011 mae nifer y bobl sy'n byw ar aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu dros 2% o'i gymharu â ffigur Cymru sydd wedi gweld cynnydd o fymryn dros 1%.
- Mae Sir Gaerfyrddin wedi gweld gostyngiad bach yn nifer y bobl sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol ers 2011 o gymharu â'r lefelau cenedlaethol.

Diffiniad:

Mae'r set ddata hon yn darparu amcangyfrifon Cyfrifiad 2021 sy'n dosbarthu preswylwyr arferol yng Nghymru a Lloegr yn ôl a oeddent yn byw ar aelwydydd ac mewn sefydliadau cymunedol. Mae'r amcangyfrifon fel ag yr oeddent ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021.

Cofnodwyd y bobl a gwblhaodd yr holiadur aelwyd arferol fel rhai oedd yn byw ar aelwyd. Gofynnwyd i'r rhai a gwblhaodd holiadur unigol a oeddent yn byw ar aelwyd ynteu mewn sefydliad cymunedol.